# Y CYNGOR DYDD IAU, 2 RHAGFYR 2021

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd yn cadeirio)

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Stephen Churchman, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, W.Roy Owen, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Carys Fon Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr:- Menna Baines, Beca Brown, Dylan Bullard, Annwen Daniels, Simon Glyn, R.Medwyn Hughes, Keith Jones, Cai Larsen, Jason Parry ac Elfed Roberts.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o’r Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Hydref, 2021 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

‘Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 7 – Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2022/23 ac eitem 8 – Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2022/23.

(1) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 7 ar y rhaglen - Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2022/23 am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Stephen Churchman oherwydd ei fod yn derbyn budd-dal Treth Cyngor.
- Y Cynghorydd Gareth A.Roberts oherwydd bod aelod agos o’r teulu wedi derbyn disgownt Treth Cyngor.

Nid oedd yr aelodau o’r farn eu bod yn fuddiannau sy’n rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(2) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 8 ar y rhaglen – Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2022/23 am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Gareth A.Roberts oherwydd bod ganddo eiddo sy'n wag ac yn cael ei ailadeiladu.
- Y Cynghorydd Dewi Roberts oherwydd bod gan aelod o'i deulu ail gartref.
- Y Cynghorydd Angela Russell oherwydd ei bod yn berchen ar ail gartref.
- Y Cynghorydd Aled Jones oherwydd bod teulu agos iddo yn berchnogion ail gartref a chartrefi gwyliau.
- Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams oherwydd bod gan gysylltiadau agos iddo dai gwag ac ail gartrefi.
- Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn oherwydd bod gan berthynas agos iddo ail gartref.
- Y Cynghorydd Elwyn Edwards oherwydd ei fod yn rhan berchennog mewn dwy fflat uwchben Awen Meirion, Stryd Fawr, Y Bala.
- Y Cynghorydd Peredur Jenkins oherwydd ei fod yn berchen ar ail gartref.
- Y Cynghorydd Linda Morgan oherwydd bod gan aelod o'r teulu ail gartref.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(3) Datganodd Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol Refeniw a Risg) fuddiant personol yn eitem 12 ar y rhaglen – Penodi Swyddog Adran 151 Newydd, gan fod y penderfyniad yn cadarnhau ei benodiad, fel darpar ddeilydd swydd Pennaeth Cyllid y Cyngor, yn Swyddog Adran 151 newydd ar gyfer yr Awdurdod oddi ar y 1af Ionawr 2022, a hynny yn unol â gofynion Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Roedd y swyddog o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Nododd y Cadeirydd, mai gyda thristwch, y clywyd am farwolaeth Mrs Patricia G.Larsen, Penisarwaun, cyn-gadeirydd y Cyngor hwn, ac un a roddodd oes o wasanaeth i'w chymuned yn lleol. Rhoddodd deyrnged iddi, gan fynegi cydymdeimlad dwysaf y Cyngor â'r Cynghorydd Cai Larsen, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth.

Nodwyd hefyd y bu farw'r cyn-Gynghorydd Wyn Myles Meredith, Dolgellau, yn ddiweddar. Rhoddwyd teyrnged iddo gan y Cynghorydd Peredur Jenkins a mynegwyd cydymdeimlad dwysaf y Cyngor â'i deulu.

Nodwyd hefyd y bu farw Cefin Edwards, aelod o staff Ymgynghoriaeth Gwynedd, yn ddiweddar iawn. Rhoddwyd teyrnged iddo gan y Prif Weithredwr a mynegwyd cydymdeimlad dwysaf y Cyngor â'i deulu.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Wrth longyfarch Dewi Morgan, oedd wedi'i benodi'n Bennaeth Cyllid, dymunwyd yn dda, gyda diolch, i Dafydd Edwards, oedd yn mynychu ei gyfarfod diwethaf o'r Cyngor hwn yn y rôl honno. Diolchodd y Prif Weithredwr hefyd i Dafydd Edwards am ei wasanaeth ar hyd y blynyddoedd, ac am ei gefnogaeth iddo ef yn bersonol.

Nodwyd y bu sawl aelod a staff yn wael yn ddiweddar, a dymunwyd gwellhad buan i bob un ohonynt.

Nododd y Prif Weithredwr fod y niferoedd achosion Covid yng Ngwynedd yn uwch nag erioed, er bod arwyddion ein bod ar frig y don erbyn hyn, ac y byddem yn gweld gostyngiad yn fuan. Hyd oni fyddai'r sefyllfa wedi sefydlogi, roedd pwysau ar unedau penodol o fewn y Cyngor, gyda nifer o staff yn absennol o'u gwaith, ac roedd trefniadau parhad gwasanaeth mewn lle bellach mewn sawl uned ar draws y Cyngor. Er bod trefniadau rheoli argyfwng y Cyngor yn gwbl gadarn ar hyn o bryd, roedd yn anochel y byddai yna effaith ar wasanaethau yn y tymor byr, a gofynnwyd i'r aelodau gynorthwyo drwy raeadru'r neges yma yn eu cymunedau. Mawr obeithid, fodd bynnag, na welid unrhyw effaith ar wasanaethau rheng flaen, a nodwyd y byddai'r aelodau yn cael eu diweddaru yn rheolaidd ar y sefyllfa.

Nodwyd bod Tim ac Inger Hancock, a ddaeth ymlaen i ddarparu gofal maeth i saith o frodyr a chwiorydd, wedi cael eu hanrhydeddu â gwobr 'Cyfraniad Eithriadol i Ofal Maeth' gan Wobrau Rhagoriaeth mewn Maethu'r DU. Nodwyd bod y Cyngor yn eu llongyfarch yn wresog ar eu cydnabyddiaeth yn y gwobrau a'u cyfraniad eithriadol i faethu yng Ngwynedd. Nodwyd hefyd y dymunid cymryd y cyfle hwn i ddiolch i bob un o'n gofalwyr maeth sy'n gofalu am ein plant, gan nodi bod y Cyngor yn gwerthfawrogi eu gwaith caled a'u hymrwymiad yn fawr iawn**.**

Nodwyd y cyflwynwyd Gwobr Wirfoddol y Frenhines, i Ymatebwyr Cyntaf Cymuned Y Bermo gan yr Arglwydd Raglaw, Edmund Bailey yn ddiweddar. Dyma'r wobr uchaf i grŵp gwirfoddol yn y Deyrnas Unedig ac fe'i rhoddir i grwpiau gwirfoddol eithriadol sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywydau eraill. Danfonodd y criw ymroddedig hwn o wirfoddolwyr nwyddau i aelodau hunan-ynysig bregus o gymunedau gwledig Bontddu, Bermo, Talybont a Dyffryn Ardudwy, yn ychwanegol at eu gweithgareddau arferol yn ystod y cyfnod clo cyntaf.

Llongyfarchwyd Darron Garrod o Ward Llanengan ar ei ran ym Mhencampwriaeth Rali Prydain.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. CWESTIYNAU

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

### (1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Gareth A.Roberts

"Mae llawer o bobl oedrannus a gwael yn ei chael yn anodd edrych ar ôl eu hunain ac mae gennym brinder cartrefi gofal a gweithwyr gofal.

Os yw aelod o'r teulu yn dymuno symud i mewn i ofalu am berthynas sy'n oedrannus neu'n wael, nid oes raid iddynt dalu Treth Cyngor ar eu cartref eu hunain, ond bydd y person y maent yn gofalu amdano/amdani yn derbyn 50% o ddisgownt Treth Cyngor yn unig.

A wnaiff y Cyngor ganiatáu i'r person sy'n darparu'r gofal a'r person sy'n derbyn y gofal ill dau dderbyn disgownt Treth Cyngor llawn o 100%?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas**

“Mae yna eithriad statudol yn bodoli sy’n golygu nad yw Treth Cyngor yn daladwy ar eiddo sydd wedi ei adael yn wag gan rywun a symudodd oddi yno i roi gofal personol i rywun arall.  Mae yna 10 eiddo yn derbyn yr eithriad yma yng Ngwynedd, gyda threthdalwyr 5 ohonynt yn rhoi gofal i rywun sy’n byw mewn eiddo arall o fewn Gwynedd, a’r 5 arall yn rhoi gofal i rywun sy’n byw y tu allan i’r sir.

Byddai costau unrhyw ostyngiadau dewisol ychwanegol yn cael eu hariannu’n llwyr allan o goffrau’r Cyngor.  Petaem ond yn sôn am 5 eiddo, oddeutu £10,000 fyddai cost cynnig eithriad dewisol ychwanegol.

Fodd bynnag, mae 400 eiddo pellach yn derbyn disgownt o 25% neu 50% oherwydd bod o leiaf un o’r trigolion yn derbyn gofal, ond lle nad oes eiddo wedi cael ei adael yn wag gan y gofalwr.  Noder mai rhoi gostyngiad pellach ar Dreth Cyngor i’r rhai sy’n derbyn gofal sydd dan sylw yn y cwestiwn.

Ni allwn weld sut gall y Cyngor wneud penderfyniad teg, sy’n amddiffynadwy yn gyfreithiol, i roi gostyngiad Treth Cyngor ychwanegol i 5 eiddo heb ei roi i hyd at 400 eiddo arall hefyd.  Byddai hynny yn costio oddeutu £500,000 y flwyddyn i’r Cyngor, ac yn golygu blaenoriaethu adnoddau’r Cyngor, a chanlyniad anorfod hynny fyddai cyflwyno arbedion a thoriadau mewn llefydd eraill.

Os yw person sy’n derbyn gofal yn talu Treth Cyngor (neu ran o Dreth Cyngor os ydynt yn derbyn gostyngiad), mae gwerth y swm sydd yn cael ei dalu yn cael ei gynnwys yn eu hasesiad ariannol i gynyddu faint o incwm maent yn cael ei gadw pob wythnos cyn gorfod dechrau talu am eu gofal.  Mae pawb yn cael cadw digon o arian i dalu am eu Treth Cyngor cyn dechrau talu am eu gofal.

Wrth ystyried yr holl ffactorau sy’n ymwneud â materion trethiannol a chyfrifo cost gofal, ni allaf weld sut y byddai’r cynnig yn y cwestiwn yn fforddiadwy nac yn cynyddu tegwch y drefn ar draws y sir.  Er hynny, bydd yr Adran Gyllid yn parhau i ystyried pa ostyngiadau dewisol fyddai’n briodol, os o gwbl, ac yn cadw’r achosion sydd yn y cwestiwn dan ystyriaeth fel rhan o hynny.”

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Nia Jeffreys**

“Yn dilyn ergyd arall i’n cymunedau gyda’r cyhoeddiad fod Banc Barclays yn gadael Porthmadog a Chaernarfon, pa gynlluniau cefnogaeth sydd ar gael i hybu busnesau ac amddiffyn gwasanaethau hanfodol stryd fawr yng Ngwynedd?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned y Cynghorydd Gareth Thomas**

“Mae’r ugain mis diwethaf wedi bod yn her ddigynsail i fusnesau unigol ac i ganolfannau masnachol ein trefi.  Siom enbyd, felly, oedd cyhoeddiad Banc Barclays eu bod yn troi eu cefnau ar gymunedau Porthmadog a Caernarfon, fydd yn ergyd bellach i’n trigolion gael mynediad i wasanaethau craidd a chreu bwrlwm mewn canol trefi.

Bydd yr holl Aelodau yn ymwybodol o’r ymdrech anferthol mae’r Cyngor wedi ei wneud i gynnal ein busnesau lleol dros gyfnod y pandemig gyda dros 22,000 o daliadau gwerth mwy nac £112 miliwn wedi eu dosbarthu gan yr Adrannau Cyllid ac Economi a Chymuned.

Yn gyfochrog, mae'r Cyngor wedi ymateb i'r her i ganol ein trefi amlygwyd gan y pandemig. Sefydlwyd Grŵp Canol Trefi trawsadrannol, gan ddynodi swyddog cyswllt ar gyfer pob un o'r deunaw prif dref. Gweithiwyd gyda phartneriaid lleol ym mhob ardal i wireddu rhaglen o ymyraethau a gwelliannau wrth i ganol trefi gychwyn ail agor ar ôl y cyfnod clo, gan gynnwys £82,000 o gymorth ariannol i alluogi manwerthwyr a busnesau lletygarwch lleol addasu.

Mae ein hymdrechion yn parhau ac yn yr ateb ysgrifenedig, fe welwch fod yna nifer o bethau eraill wedi ei rhestru. Hoffwn roi blas i chi o'r math o bethau mae'r Cyngor wedi wneud i gefnogi busnesau.

Yn gyntaf, gwybodaeth. Mae'r Cyngor yn cyfathrebu'n gyson gyda busnesau ac mae yna dros 4,300 yn derbyn bwletin gwybodaeth y Cyngor yn wythnosol. Mae yna fenthyciadau i fusnesau, £3 miliwn o fenthyciadau, yn cael eu rhoi allan. Mae gennym ni gynllun adfer adeiladau. Mae gennym ni welliannau canol trefi, rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yn cael ei redeg gan y Cyngor, ac mae yna fenthyciadau i adfer adeiladau segur yng nghanol trefi yn bodoli, ac mae hyn i gyd i lawr mewn mwy o fanylder yn yr ateb ysgrifenedig."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Ydi Banc Cambria, sy'n cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru, yn syniad fyddai'n gweithio i ni yng Ngwynedd er mwyn cadw gwasanaethau ar y stryd fawr, a gan fod Banc Barclays yn troi eu cefnau ar bobl Gwynedd, ydi'n amser i ni fel Cyngor droi ein cefnau arnynt hwythau, a symud ein busnes i fanc arall?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned Y Cynghorydd Gareth Thomas**

"O ran Banc Cambria, rwy'n hollol gefnogol. Rwy'n meddwl, erbyn rŵan, ein bod yn gweld bod Cymru'n cael ei gadael i lawr yn aml iawn gan y cwmnïau rhyngwladol yma. Maen nhw'n troi eu cefnau arnom, ac mae'r banciau cyn waethed â neb, ac rwy'n gredwr mawr mewn gwneud pethau drosom ein hunain yn ein gwlad ein hunain. Felly rydw i'n falch iawn o glywed am ddatblygiad Banc Cambria yng Nghymru, a gobeithio yn fawr iawn y bydd y banc yma yn agor yn fuan, ac yn agor mewn adeiladau yn ein trefi ni yma yng Ngwynedd. O ran Banc Barclays, rydw i ar ddeall bod y Cyngor yn gwsmer i'r banc yma, ac mi fyddaf yn cael trafodaethau gyda'r Aelod Cabinet Cyllid i weld os ydym yn gallu dod â rhywfaint o bwysau arnyn nhw i wyrdroi'r penderfyniadau maen nhw wedi wneud. Ond mae angen i'r Cyngor hefyd efallai ystyried, os ydi Banc Cambria yn cael ei sefydlu, a fyddai'n well trosglwyddo holl fusnes y Cyngor i'r math yna o fanc? Felly, mi gawn ni'r trafodaethau ar hynny."

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

"Gan fod Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd 2019-2024 tua hanner ffordd drwy ei oes, tybed all y Deilydd Portffolio Tai ein goleuo ar lwyddiannau a gwendidau'r Strategaeth, a beth sydd wedi'i ddysgu wrth geisio ateb y galw am dros 800 o dai bob blwyddyn i ddiwallu'r angen am gartrefi diogel, cyfforddus a fforddiadwy i drigolion Gwynedd?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

"Mae'r Cynghorydd wedi sôn am y Strategaeth Tai, a byddaf yn ateb y cwestiwn am y Strategaeth Tai, ond wrth gwrs, mae yna ddogfen arall, y Cynllun Gweithredu Tai, sy'n gweithredu ar y Strategaeth, sef ein gweledigaeth ni. Ar ben yr ateb ysgrifenedig, hoffwn ddweud un neu ddau o bethau. Mae yna dair rhan, yn fy marn i, i'r cwestiwn - un am y llwyddiannau, un am y gwendidau, a'r drydedd am yr hyn rydw i

wedi ddysgu ers y Strategaeth. Llwyddiannau mwyaf y Strategaeth ydi - pan oeddem ni'n ysgrifennu'r Strategaeth, roedd y Gwasanaeth Tai yn rhan o'r Adran Eiddo. Nid oedd yn adran ei hun. Erbyn hyn, mae gennym adran ein hunain, ac wrth gwrs, mae gennym Gynllun Gweithredu Tai i weithredu ar y Strategaeth, sy'n bwysicach na'r Strategaeth ei hun - llwyddiannau enfawr yn fy marn i. Rydym wedi newid y gêm, rydym wedi newid meddylfryd y Cyngor am dai, a'n rôl ni yn yr Adran Tai. O ran gwendidau'r Strategaeth, fe ddaru ni ei hysgrifennu mewn oes wahanol, dan brif weithredwr arall. Roedd hyn dri phennaeth tai yn ôl. Roedd yn strygl i greu'r Strategaeth weithiau, a phe byddem yn ei hysgrifennu heddiw, byddai'n llawer mwy uchelgeisiol. Byddai'n haws ei deall, ond mae hynny'n rhywbeth am y ddogfen, ond fel rydw i'n dweud, y ddogfen bwysicaf ydi'r Cynllun Gweithredu Tai. Beth ydw i wedi dysgu? Rydw i wedi dysgu ein bod angen llawer mwy nag 800 o dai bob blwyddyn, a hynny i gadw i fyny gyda'r galw yn unig. Rwyf wedi dysgu ein bod mewn argyfwng tai go iawn, ac er ein bod ni yn yr Adran Tai yn gwneud popeth o fewn ein gallu ac yn mynd y filltir ychwanegol i wneud yn siŵr ein bod yn cartrefu ein pobl ni yn eu cymunedau, mae'r ateb i'r broblem yn gorwedd yn y drefn gynllunio, a'r bobl sy'n gallu newid y drefn honno ydi Llywodraeth Cymru. Rydym ni ar hyn o bryd yn defnyddio system gynllunio sy'n seiliedig ar Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Cafodd ei chreu mewn gwlad wahanol, mewn canrif wahanol, dan Lywodraeth llawn pobl aeth i Eton, ac mae'n amser i ni gael deddf gynllunio ar gyfer Cymru'r unfed ganrif ar hugain. Dyna beth sydd ei angen i ddatrys y ffaith nad ydym yn gallu darparu digon o dai i gwrdd â'r angen."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

"Faint o gartrefi sydd wedi'u darparu dros yr 8 mis diwethaf?"

**Ateb gan y Prif Weithredwr**

"O ran rhai ffigurau, mae yna 220 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd drwy fuddsoddiad gan Gyngor Gwynedd ers cyflwyno'r Strategaeth yn 2019. Mae yna addasiadau anableddau i wneud tai yn hygyrch i bobl allu parhau i fyw yn eu cartrefi - mae yna 521 o'r rheini. Mae yna grantiau penodol wedi'u rhoi i bobl na fyddai'n gymwys i dderbyn grant gan fanc – mae yna 24 o'r rheini. Mae yna 1,836 o bobl wedi cael eu lletya mewn tai cymdeithasol. Mae yna 237 o dai newydd cymdeithasol wedi eu hadeiladu ac mae yna 14 o bobl wedi derbyn grant tuag at brynu eu tŷ cyntaf. O ran y nifer o bobl sydd wedi derbyn cymorth allan o hyn i gyd, y ffigwr sydd gen i ydi 2,852."

**(4) Cwestiwn gan y Cynghorydd Annwen Hughes**

"Pa effaith mae'r Llywodraeth yn tynnu nôl o ffordd osgoi Llanbedr (ffordd mynediad i'r maes awyr) yn debygol o'i gael ar economi ehangach Meirionnydd?"

**Ateb gan yr Arweinydd, Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Cynghorydd am ei hymdrechion parhaus i gefnogi pobl Llanbedr, sydd yn wirioneddol bryderus am y sefyllfa.

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i dynnu eu cefnogaeth o gynllun ffordd Llanbedr yn ergyd drom i ni fel Awdurdod, ac i bobl a busnesau Llanbedr yn arbennig.

Mae'r penderfyniad, yn ein barn ni, yn ddi-sail am nifer o resymau, gan gynnwys unrhyw effaith ar yr amgylchedd. Yn ôl ein hymchwil ni, byddai'n cael effaith cadarnhaol ar yr amgylchedd, ac yn benodol ar ansawdd aer i drigolion Llanbedr. Mae'r dadleuon o ran diffygion adolygiad Llywodraeth Cymru wedi'u gosod allan yn

fanwl mewn llythyr i'r Prif Weinidog a yrrwyd ar y 12fed o Dachwedd, a chredaf fod y llythyr hwnnw wedi'i atodi i'r ateb ysgrifenedig, neu wedi'i ddanfon allan ar wahân at yr holl aelodau.

O safbwynt yr effaith economaidd, rwy'n credu bod hwn yn bryder o sylwedd. Mae creu swyddi yng nghefn gwlad ac ym Meirionnydd yn flaenoriaeth i ni, ac mae'r penderfyniad yma, o ganlyniad, yn un syfrdanol. Rydym ni angen swyddi o ansawdd ar draws y Wynedd wledig ac mae yna ymdrech arbennig i dargedu gwaith o ansawdd yn ardal Meirionnydd. Mae'r lleoliad yma yn unigryw, a dyna ei gryfder. Mae'n galluogi mynediad i awyrofod diogel ar wahân dros Fae Ceredigion, sy'n caniatáu'r math o brofion ar awyrennau nofel na ellir eu hymgymryd mewn canolfannau eraill. Nid oes modd ei leoli yn unman arall.

Mae gennym uchelgais glir o ran datblygiad y ganolfan yma, wedi'i seilio ar dechnolegau awyr carbon-isel a charbon-niwtral, megis awyrennau trydan, a rhai sydd yn defnyddio hydrogen. Mae adroddiad o 2020 yn amcangyfrif y gallai 500 o swyddi gael eu creu yma os byddai'r ganolfan yn cael ei datblygu i'w llawn botensial.

Mae datblygu'r safle yma yn ganolog i nifer o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru ei hun, gan gynnwys Cymru: Cenedl Gofod Cynaliadwy – dogfen sydd yn gosod allan rôl glir i'r ganolfan wrth anelu i Gymru ennill marchnad gofod gwerth £2bn erbyn 2030.

Mae yna elfen o bryder sylweddol gen i yn yr adroddiad a wnaed sy'n sail i'r penderfyniad yma. Mae yna awgrym ynddo na ddylai'r ganolfan dderbyn cefnogaeth gan nad ydyw wedi ei lleoli o fewn ardal sydd wedi'i dynodi fel ardal twf yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae yna oblygiadau pellgyrhaeddol i'r datganiad yma. Rydym wedi dadlau fod hyn yn awgrymu na fyddai cefnogaeth i fuddsoddiadau i greu swyddi newydd mewn ardaloedd gwledig ar draws Cymru, ac rydym wedi codi'r mater yn y Fforwm Gwledig, a gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae hefyd angen cydnabod yr effaith ar y cwmnïau sydd wedi buddsoddi arian sylweddol mewn paratoi tendrau manwl i ddylunio a chodi'r ffordd. Roeddem yn barod i gychwyn ar y gwaith yma ddechrau'r flwyddyn, ac ni fydd yr un o'r rhain bellach yn derbyn gwaith, a dim un felly mewn lle i ddiogelu gwaith eu gweithlu dros y misoedd i ddod.

I gloi, rydw i o'r farn y bydd gan y penderfyniad yma sgil-effeithiau ymhell tu hwnt i ddatblygiad un ganolfan waith. O ystyried y darlun llawn, roedd yma gyfle i gyfrannu at ymgyrchoedd gwirioneddol i ddatblygu technolegau newydd carbon-isel a charbon-niwtral ar lefel byd-eang. Roedd yn dod â gobaith o lewyrch i un o'n hardaloedd mwyaf economaidd bregus, gyda'r tâl wythnosol isaf yn y Deyrnas Gyfunol. Mae'r cyfle yn dal i fod yno gan fod yr hawliau perthnasol i gyd mewn lle. Ond byddwn yn ystyried y camau nesaf wedi derbyn ymateb Llywodraeth Cymru i'n pryderon."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Annwen Hughes**

"Ydych chi wedi cael ateb i'r llythyr anfonwyd gennych ym mis Tachwedd at Brif Weinidog Cymru?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Do, rydw i wedi cael ateb yn y dyddiau diwethaf, ond mae'r ateb yn un hynod siomedig gan fod y Prif Weinidog yn gwneud yn berffaith glir na fydd yn ail-ystyried y penderfyniad. Mi wnaf rannu copi o'r llythyr hwnnw gyda'r aelodau i gyd y pnawn yma. Ni chawsom ateb i'n dadansoddiad o adroddiad diffygiol y Panel Annibynnol

na'r pwyntiau eraill a godwyd - dim ond dweud y cawn gyfle i'w trafod gyda Thrafnidiaeth Cymru. Mae'n gwestiwn gen i pa mor gymwys yw'r rheini i'w trafod yn ystyrlon, a chawsom ni ddim cynnig i gyfarfod ag unrhyw weinidog, er gwaethaf ein cais, sydd yn siom o ystyried y berthynas dda a ddatblygwyd dros y misoedd diwethaf mewn sawl maes. Yn naturiol, mae'r math yma o ymagweddu gan y Llywodraeth yn tanseilio elfennau o'r ymddiriedaeth rydym ni wedi datblygu rhyngom ni a nhw. Mae trigolion Llanbedr wedi eu haberthu i ddioddef, nid yn unig y broblem trafnidiaeth, ond hefyd y llygredd sy'n deillio o hynny. Mae ffyniant economaidd pobl Meirionnydd, a phob ardal wledig arall yng Nghymru, yn cael eu haberthu o ganlyniad i bolisi symplistig y Llywodraeth, sy'n diystyru cymhlethdod y sefyllfa. Dyma ni unwaith eto - enghraifft o gefn gwlad yn gorfod talu mewn ymateb i bolisïau newid hinsawdd. Cawn weld a fydd ein hardaloedd poblog, sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o allyriadau carbon, yn cyfrannu gymaint ag rydym ni'n gorfod gwneud. Rwy'n credu bod yna gamwedd mawr yn digwydd yma. O safbwynt y camau nesaf, byddaf yn ymateb i lythyr y Prif Weinidog, wrth gwrs, ac yn ceisio trefnu cyfarfod gyda Gweinidog yr Economi. Caf sawl cyfle i wneud hynny rwy'n credu, ac i geisio atebion ganddo, oherwydd mae yna gwestiynau ynglŷn â'i holl strategaeth o ran yr economi yma yng Ngwynedd, ac yn y Gogledd, ac yn wir yng nghefn gwlad Cymru gyfan. Rydw i eisoes wedi codi'r mater gyda'r Fforwm Gwledig a byddaf yn gofyn am gymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i geisio agor y drws i roi mynediad i ni at swyddogion a gweinidogion y Llywodraeth. Yn y cyfamser, mae'n rhaid i ni ystyried pob opsiwn cyfreithiol posib', a hefyd edrych ar unrhyw bosibiliadau o gyllid arall."

**(5) Cwestiwn gan y Cynghorydd Gwynfor Owen**

"Yn dilyn datganiad Llywodraeth Cymru ynghylch cyflwyno mesurau i reoli ail gartrefi a thai gwyliau, gall yr Arweinydd roi diweddariad ar fanylion y mesurau a'r camau nesaf i'r Cyngor wrth eu gweithredu?"

**Ateb gan yr Arweinydd, Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Yn amlwg, rwyf yn croesawu datganiad diweddaraf Llywodraeth Cymru, fydd yn cychwyn y broses o wneud addasiadau i'r rheoliadau cynllunio, ymysg argymhellion eraill, er mwyn ceisio cael rheolaeth o dai gwyliau ac ail gartrefi.

Mae'r datganiad yma, wrth gwrs, yn dilyn blynyddoedd o lobïo gan y Cyngor, gan gynnwys cyflwyno tystiolaeth fanwl i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2020, yn dilyn gwaith ymchwil ar dai gwyliau ac ail gartrefi, oedd yn amlygu'r angen am reolaeth well, yn ogystal â chynnig argymhellion ar gyfer cyflawni hynny. Credaf fod y sail tystiolaeth sydd wedi deillio o waith ymchwil y Cyngor wedi bod yn arwyddocaol i'r cyhoeddiad diweddar gan y Llywodraeth, sydd, rwy'n credu, yn gydnabyddiaeth o'r angen i gael rheolaeth llawer gwell o dai gwyliau ac ail gartrefi, er lles ein cymunedau rŵan ac i genedlaethau'r dyfodol.

Felly rydym ni wedi cael lansiad yr ymgynghoriad "Deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr" ar y 23ain o Dachwedd 2021, ac mae'n agored hyd at yr 22ain o Chwefror 2022, ac mae yna linc i chi weld y manylion yn yr ateb ysgrifenedig, ac rwy'n annog pob aelod i ymateb i hwnnw gan ei bod yn bwysig ein bod yn cael cefnogaeth gref i'r mesurau sy'n cael eu cynnig. Mae'r ymgynghoriad yma yn cynnig newidiadau sydd yn rhoi'r cyfle i'r awdurdodau hynny sydd yn cael eu heffeithio gan niferoedd uchel o dai gwyliau geisio rheoli'r sefyllfa'n well. Mae hyn yn golygu casglu tystiolaeth fel sail wedyn i roi cyfarwyddyd cyfreithiol a fyddai'n golygu, o ddyddiad y cyfarwyddyd, fod angen caniatâd cynllunio i fod yn defnyddio tŷ fel tŷ gwyliau ac ail gartref, o fewn ardal benodol.

Mae'r swyddogion wedi cychwyn ar y broses o gydlynu ymateb i'r ymgynghoriad, fydd mae'n debyg, angen ystyried nifer o faterion fel ymarferoldeb gweithredu a gorfodi'r addasiadau sydd yn cael eu cynnig, yn ogystal â beth fyddai hyn yn ei olygu o ran adnoddau i'r Cyngor.

Mae'r ymgynghoriad yn y maes cynllunio yn un o nifer o ymgynghoriadau mae'r Cyngor yn ymateb iddynt sydd yn gysylltiedig â thai gwyliau, ac rwy'n tynnu sylw'n benodol at yr ymgynghoriad "Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg" sydd hefyd newydd ei lansio ac yn rhedeg hyd at yr 22ain o Chwefror 2022. Mae linc yn yr ateb ysgrifenedig, ac eto, rwy'n argymell eich bod i gyd yn cyfrannu at yr ymgynghoriad hwnnw.

Mae yna sesiwn briffio cyffredinol ar gyfer Aelodau yn cael ei drefnu ar gyfer y 14eg o Ragfyr 2021, a bydd trosolwg o'r ymgynghoriadau yma yn rhai o'r eitemau fydd yn cael eu cyflwyno i Aelodau.

Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r amrywiaeth o gynlluniau a gyfeiriwyd atynt yn eu datganiad, gan gynnwys cymorth cyllidol i Wynedd ar gyfer tai gwag a chyllid i roi cymorth i bobl mewn i angen i brynu tai yn eu cymunedau."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Gwynfor Owen**

"A allwch chi ymhelaethu fwy ar eich rôl benodol chi fel Arweinydd ynghyd â Phlaid Gwynedd a Chyngor Gwynedd yn y broses o gyrraedd y pwynt sylweddol hwn?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Credaf ei bod yn wir i ddweud bod y Cyngor yma wedi arwain ar faterion ail gartrefi ers blynyddoedd. Trwy ddyfalbarhad fy rhagflaenydd, Dyfed Edwards, a'i berswâd ar weinidogion y Llywodraeth, llwyddodd i gyflwyno'r hawl i godi Premiwm. Rwy'n cofio'r cyfarfod cyntaf gefais gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol yn fuan iawn ar ôl etholiadau'r Cyngor Sir a chymryd y rôl o Arweinydd - Dilwyn Williams (y cyn Brif Weithredwr) a minnau yn cyfarfod â'r Gweinidog, Julie James, ac un o'r prif faterion oedd gennym oedd y cwestiwn o dai haf. Wrth sôn am Dilwyn Williams, mae yna le i ni i gyd ddiolch i Dilwyn am ei waith trylwyr yn cyflwyno achos manwl a chamau clir y gellid eu cymryd i gael rheolaeth ar ail gartrefi. Paratowyd papurau clir iawn, fel roedd Dilwyn yn gallu gwneud, i'w cyflwyno i'r Fforwm Gwledig, a'u derbyn gan y 9 sir yn y corff hwnnw. Fe gyflwynwyd y papur hwnnw hefyd i'w gymeradwyo gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i gael cefnogaeth siroedd Cymru gyfan i'r hyn roeddem yn alw amdano, sef y camau yn y maes cynllunio, yn y maes trethi yn arbennig, a hefyd yn y maes trwyddedu. Does dim dwywaith fod y gwaith ymchwil a wnaed gan ein Tîm Polisi Cynllunio ni wedi bod yn hynod werthfawr, ac mae angen i mi dalu teyrnged iddynt am y gwaith yna.

Mae yna lawer iawn o bobl ac ymgyrchwyr wedi bod yn gweithio ar hwn ers degawdau. Rwy'n cofio cymryd rhan mewn ymgyrchoedd yn y 70au. Credaf fod Dafydd Wigley wedi cyflwyno bil yn San Steffan yn yr 80au, ac fe wnaeth Elfyn Llwyd, ar ei ôl o yn y 90au, gyflwyno bil i'r Senedd i geisio rheolaeth ar y maes yma. Wrth gwrs, mae yna bobl eraill o'n cwmpas ni. Rydym ni wedi gweithredu yn y maes gwleidyddol, ond mae yna ymgyrchwyr dros y blynyddoedd, boed yn Gymdeithas yr Iaith, Cymuned, Hawl i Fyw Adra - mae'r cyfan ohonynt wedi cyfrannu at fedru darbwyllo'r Llywodraeth yma bod yna achos dros newid, ac mae'r achos erbyn hyn yn gryfach nag erioed, fel rydym ni'n gweld yr argyfwng tai presennol. Ond mae yna fwy o waith i'w wneud, wrth gwrs. Megis dechrau ydym ni rŵan. Rydym ni wedi gosod y sylfeini yn fan hyn. Rydym ni wedi ennill y dydd ar yr egwyddorion, ond rhaid

i ni sicrhau rŵan bod y gweithredu yn effeithiol yn y maes cynllunio. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y cynigion trethiant yn rhai sy'n mynd i weithio ac rydym yn disgwyl rhywfaint o gyhoeddiad yn fuan iawn gan y Llywodraeth yn y maes hwnnw. Wrth gwrs rydym ni'n dal angen trafodaeth gyda'r Llywodraeth ynglŷn â beth yn union ydi'r cynigion yn y cynllun peilot yn Nwyfor, a bydd y drafodaeth yna yn parhau. Felly does dim amser i orffwys ar ein rhwyfau - rŵan mae'r gwaith yn cychwyn."

## 7. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2022/23

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Gyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill, 2022.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod gwahanol fathau o gymorth ar gael ar gyfer pobl ar gyflogau bychain, ond gan fod hynny'n amrywio yn ôl amgylchiadau'r unigolyn, ei bod yn amhosib' rhoi ateb cyffredinol. Fodd bynnag, anogwyd unrhyw un sy'n cael trafferth i gysylltu â'r Adran i weld beth sy'n bosib'. Nodwyd hefyd bod trafodaethau ar y gweill er mwyn gweld oes modd gweithredu yn fwy trawsadrannol i gynnig cymorth.

**PENDERFYNWYD**

- **Parhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2022 fel ag yr oedd yn ystod 2021/22. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

  **a) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**
  **b) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**
  **c) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

- **Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2022/23, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 8. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU GODI PREMIWM

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor am gadarnhad ffurfiol am 2022/23 o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, ac i godi Premiwm o 100% ar eiddo perthnasol o'r fath.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd bod amgylchiadau unigolion a theuluoedd sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn amrywio yn fawr, a holwyd pa gefnogaeth y gellid ei rhoi i'r unigolion hynny. Mewn ymateb, nodwyd yr argymhellid parhau i godi Premiwm ar eiddo gwag hirdymor oherwydd y gallai eiddo o'r fath achosi problemau cymdeithasol mewn rhai llefydd, ond y gellid cyflwyno polisi dan adran arall o'r ddeddf sy'n rhoi disgresiwn i'r Cyngor leihau'r Premiwm taladwy mewn rhai achosion, megis lle mae eiddo wedi ei etifeddu gan deulu, a bod yna waith o ran dod â'r tŷ yn ôl i drefn fel rhan o'r stad.
- Holwyd pa mor agos oeddem at yr amcangyfrif y byddai £3.9m ychwanegol o gynnyrch Premiwm 2021/22 ar gael i'r gronfa, o ystyried bod 2,045 eiddo wedi

trosglwyddo o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Ardrethi Annomestig. Mewn ymateb, eglurwyd, wrth baratoi'r amcangyfrifon yn flynyddol, bod rhaid edrych yn ddarbodus ar faint fydd yn trosglwyddo, gan ragdybio bod y patrwm trosglwyddiadau am barhau heb ymyrraeth ddeddfwriaethol. Gallai trosglwyddiadau hwyr yn y flwyddyn ariannol yma olygu colled, efallai, fyddai'n cael ei ôl-ddyddio am gyfnod. Gan hynny, roedd yn amhosib' dweud pa mor agos oeddem at y £3.9m, ond ar hyn o bryd, gellid bod yn eithaf hyderus y byddem o gwmpas ein lle o ran yr arian sy'n dod i mewn.

- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod y diffiniad o eiddo anaddas i fyw ynddo yn nwylo'r Prisiwr Dosbarth. Gofynnid i unrhyw un sy'n berchen ar y math yma o eiddo gysylltu â'r Prisiwr, a phetai'r Prisiwr yn dod i'r casgliad ei fod yn anaddas, byddai'n cael ei dynnu allan o'r bandio. Roedd y Prisiwr wedi tynhau'r diffiniad yn ddiweddar, fel bod rhaid i eiddo fod yn adfail bron cyn cael ei dynnu allan o'r rhestr. Nodwyd, petai gan aelodau bryderon am eiddo penodol yn eu ward, y gallent drafod gyda'r Adran Gyllid yn y lle cyntaf.
- Mynegwyd pryder nad oedd perchnogion carafanau yn talu unrhyw Dreth Cyngor, ac eto'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, ac awgrymwyd y dylid ail-edrych ar hyn.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymlynu at y polisi o godi Premiwm ar ail-gartrefi a chadw'r pwysau ar Lywodraeth Cymru i ddatrys y broblem tai haf.
- Awgrymwyd nad oedd y cyfnod eithrio estynedig o 12 mis i adnewyddu eiddo gwag hirdymor yn ddigonol gan ei bod yn anodd iawn y dyddiau hyn cael adeiladwr / saer / plymwr / trydanwr i gydweithio a chwblhau'r holl waith mewn cyfnod mor dynn. Mewn ymateb, nodwyd bod y Cynllun Gweithredu Tai yn gwneud darpariaeth ar gyfer achosion sydd angen mwy o gyfnod na 12 mis. Roedd cymorth ar gael i bobl leol gael cyfnod pellach o eithriad treth, ac roedd croeso i'r aelodau gysylltu â'r adran os oeddent yn ymwybodol o achosion penodol.
- Nodwyd mai'r broblem fwyaf oedd bod pobl yn troi eu tai yn fusnesau, a holwyd beth oedd yn cael ei wneud gan y Cyngor i atal hyn, yn arbennig wrth baratoi ar gyfer y cynllun peilot yn Llyn. Awgrymwyd nad oedd diben cael y Premiwm, bron iawn, os oedd yr eiddo'n cael ei golli, a phobl yn osgoi talu unrhyw Dreth Cyngor. Hefyd, gan gyfeirio at y cynllun peilot, holwyd faint o bwyslais a roddir o ran y Gymraeg a'r cymunedau Cymraeg, a'r angen i'r cymunedau hyn fod yn cael eu neilltuo fel ardaloedd o ddiddordeb arbennig, byd eang, mewn gwirionedd. Mewn ymateb, eglurwyd bod yr Arweinydd eisoes wedi cyfeirio at hyn wrth ateb cwestiwn gan y Cynghorydd Gwynfor Owen dan eitem 6 uchod. Roedd yr Adran Bolisi Cynllunio wedi gwneud darn o waith flwyddyn yn ôl, a dyna sail Llywodraeth Cymru dros gael yr adroddiad gan Dr Simon Brookes. Roedd hynny, a'r trafodaethau rhwng y Cyngor hwn a Llywodraeth Cymru, wedi arwain at y datganiad yr wythnos ddiwethaf, a disgwylid rhagor o fanylder ar hynny gan y Llywodraeth. Nodwyd ymhellach bod ymgynghoriad ar y gweill ar hyn o bryd ynglŷn â sut i gau'r bwlch, neu'r gallu i drosglwyddo i'r Dreth Annomestig. Roedd safbwynt y Cyngor wedi bod yn hollol glir ers blynyddoedd mai tŷ yw tŷ, ac nad oedd modd i bobl fod yn medru osgoi talu'r dreth. Roedd diwygio Adran 66 o'r Ddeddf Trethi bresennol a chau'r bwlch yn ffordd hawdd iawn o atal hyn rhag digwydd, a dyna fyddai'n cael ei gyfleu mor gadarn â phosib' fel ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad.
- Mynegwyd pryder bod y Cyngor o hyd yn ceisio dal i fyny â'r broblem trosglwyddiadau, ac nad oedd y sefyllfa'n cael ei phlismona. Roedd pobl yn troi eu tai yn fusnesau, ac yn defnyddio gwasanaeth casglu biniau'r Cyngor. Roedd deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn clymu ein dwylo o hyd, a gweinidogion yn gwrthod siarad â ni. Roedd angen newid y sefyllfa, ac annog pawb i frwydro, fel ein bod yn gallu cael rheolaeth dros ein stoc tai yn y cymunedau.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn gwneud <u>dim newid</u> i'r cynllun ar gyfer 2022/23. Hynny yw, ar gyfer 2022/23, bod Cyngor Gwynedd yn:**

- **Caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
- **Caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 100% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
- **Caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**

## 9. DATGANIAD CYNGOR GWYNEDD YNGHYLCH AMRYWIAETH

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu rhaglen waith ar gyfer cefnogi Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol i Gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eu gwaith ar y pwnc pwysig yma.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol am sicrhau bod y datganiad yn cael ei addasu i gynnwys pobl sy'n adnabod fel LGTBQ+, ac anogwyd unrhyw un o grwpiau â nodweddion gwarchodedig i sefyll etholiad ym mis Mai.
- Nodwyd ei bod yn hynod bwysig cael amrywiaeth ar y Cyngor, a bod y Cyngor yn adlewyrchu pobl Gwynedd heddiw.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd cadw'r mater hwn mewn cof wrth drafod amodau a chydnabyddiaeth i aelodau etholedig, gan fod y materion hyn yn hollbwysig o ran denu pobl i fod yn rhan o'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer cefnogi Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd.**

## 10. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 – TREFNIADAU AR GYFER CYFARFODYDD Y CYNGOR I'R DYFODOL

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, adroddiad yn gwahodd y Cyngor i gymeradwyo trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cyngor er cyfarch gofynion newydd yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Mynegodd nifer o aelodau eu pryderon ynglŷn â threfniadau rhithiol / hybrid ar y sail:-

- Bod yna broblemau band eang ledled y sir, a holwyd a allai'r Cyngor wneud mwy i helpu gyda hyn, er budd busnesau'r sir a chynghorwyr. Mewn ymateb, nodwyd bod y Cynllun Twf yn buddsoddi yn isadeiladedd digidol y rhanbarth.
- Bod yr hen drefniadau (h.y. cyfarfod wyneb yn wyneb yn y Siambr) yn well.
- Nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio at lesiant meddwl ac unigrwydd, ac y byddai'r materion hynny yn gwaethygu wrth i bawb barhau i weithio yn unig o flaen sgrin, heb gael y cyfle i gymdeithasu a sgwrsio gyda chyd-weithwyr a chyd-gynghorwyr.
- Bod pryder ynglŷn â sut mae aelodau newydd o fis Mai ymlaen am gael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.
- Ei bod yn bwysig cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb fel bod staff yn dod i adnabod staff newydd a chynghorwyr yn dod i adnabod eu cyd-gynghorwyr newydd ar ôl Mai.

Mynegwyd gobaith y byddai yna adolygiad parhaus o'r trefniadau.

Cefnogwyd y symudiad i gyfarfodydd hybrid gan aelodau eraill ar y sail bod hynny'n rhoi'r dewis i aelodau ddod i'r siambr, neu gymryd rhan yn y trafodaethau o gartref.

Gan gyfeirio at yr is-bennawd *'Rhithiol llwyr'* yn y golofn *'Math o gyfarfod'* yn Atodiad A i'r adroddiad, mynegwyd pryder bod hynny'n cau'r drws ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb am byth, a chynigiwyd gwelliant i dynnu'r is-bennawd, fel bod yr holl gyfarfodydd yn mynd yn hybrid, ac felly'n cadw'r dewis i gynghorwyr fynychu cyfarfodydd mewn lleoliad.

Mewn ymateb i'r gwelliant ac i sylwadau'r aelodau, nodwyd:-

- Na fyddai mabwysiadu trefn o gynnal rhai cyfarfodydd yn rhithiol llwyr yn cau'r drws, a'i bod yn hynod bwysig monitro ac adolygu'r trefniadau yn barhaus (o leiaf yn flynyddol, mae'n debyg).
- Bod cyfeiriad yn yr adroddiad at eithriadau fyddai'n digwydd o dro i dro, megis cyfarfodydd cyntaf yn dilyn etholiadau, fel bod modd i aelodau newydd ymgyfarwyddo â gwaith y Cyngor, ac i aelodau sy'n dychwelyd gael cyfarfod eu cyd-aelodau newydd.
- Bod y gwelliant i wneud pob cyfarfod yn hybrid yn gweddnewid yr hyn roedd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi ei roi gerbron, ac yn golygu y byddai'n rhaid i bob cyfarfod gael ei gynnal mewn siambr fel man cychwyn. Pe derbynnid y gwelliant, byddai'n rhaid cyfeirio'r mater yn ôl i'r pwyllgor i ystyried goblygiadau hynny, a chael adroddiad pellach ar y mater. Nid oedd y Cyngor mewn sefyllfa i wneud penderfyniad yn y fan a'r lle i roi pob cyfarfod o fewn siambr yr eiliad y byddai'r cyfyngiadau yn cael eu codi.
- Y deellid yr awydd i ddychwelyd i'r siambr, ond bod yna waith sylweddol i'w wneud i gael y systemau i weithio i gynnal pwyllgorau lle mae rhai aelodau yn y siambr, ac eraill gartref, ac awgrymwyd yn gryf y dylid cael y pwyllgorau a restrwyd (sef y Cyngor, Pwyllgor Cynllunio a'r pwyllgorau craffu) i weithio'n iawn yn gyntaf, yn enwedig o safbwynt materion fel y system bleidleisio. Yn dilyn hynny, gellid adolygu, a phetai popeth yn gweithio'n rhwydd, gellid ystyried ymestyn y trefniant yn y dyfodol.

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth fod cyfarfodydd hybrid yn ffordd wahanol eto o weithio, ac y byddai cadeirio cyfarfod hybrid yn brofiad gwahanol, ac yn gofyn am sgiliau gwahanol a newydd. Diolchodd i staff y Gwasanaeth Democratiaeth am sicrhau bod yr aelodau wedi gallu cyfarfod a gweld ei gilydd (yn rhithiol) dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a nododd y byddai'n sicrhau bod y trefniadau yn cael eu hadolygu wrth symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD**

- **Mabwysiadu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor i'r dyfodol yn unol â'r egwyddorion sydd wedi eu gosod ym mharagraff 9 o'r adroddiad i'r Cyngor, gyda chyfarfodydd y Cyngor Llawn, Pwyllgor Cynllunio a phwyllgorau craffu i gael eu cynnal o leoliad (yn hybrid) gyda'r gweddill yn parhau yn rhithiol.**
- **Cadarnhau'r cyfrifoldeb i weithredu ar gyfer pennu'r dyddiad cychwyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a Chadeirydd y Cyngor, ac o ganlyniad i godi'r cyfyngiadau presennol.**

**11. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 – PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn manylu ar newidiadau Cyfansoddiadol ynglŷn â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn ceisio arweiniad y Cyngor ar faint y pwyllgor i'r dyfodol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r golled i'r Grŵp Annibynnol, oedd â chadeiryddiaeth ac is-gadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar hyn o bryd. Deellid, fodd bynnag, mai Llywodraeth Cymru oedd yn cyflwyno'r newidiadau hyn.
- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd y byddai'r 12 aelod etholedig ar y pwyllgor yn cael eu penodi gan y grwpiau, yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol.
- Awgrymwyd bod y panel penodi aelodau lleyg yn ymddangos yn fychan iawn.
- Mewn ymateb i sylw, eglurwyd y byddai'r aelodau lleyg yn cael eu penodi cyn i'r darpariaethau newydd ddod i rym ym mis Mai, ac felly y byddai cadeirydd presennol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gallu eistedd ar y panel.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi'r newidiadau gan y Swyddog Monitro i'r Cyfansoddiad yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**
- **Cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i osod cyfanswm maint o 12 aelod etholedig a 6 aelod lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu Archwilio ar gyfer Mai 2022.**

## 12. PENODI SWYDDOG ADRAN 151 NEWYDD

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys, adroddiad yn gwahodd y Cyngor i gadarnhau Dewi Aeron Morgan, darpar ddeilydd swydd Pennaeth Cyllid y Cyngor fel y Swyddog Adran 151 newydd ar gyfer yr Awdurdod oddi ar y 1af o Ionawr, 2022, a hynny yn unol â gofynion Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**PENDERFYNWYD Bod y Cyngor yn cadarnhau Dewi Aeron Morgan, darpar ddeilydd swydd Pennaeth Cyllid y Cyngor fel y Swyddog Adran 151 newydd ar gyfer yr Awdurdod oddi ar y 1$^{af}$ o Ionawr 2022, a hynny yn unol â gofynion Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972**.

## 12. RHYBUDDION O GYNNIG

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Gethin Glyn Williams o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**Dros y canrifoedd, defnyddiwyd tiroedd ac adnoddau Cymru i echdynnu pob math o nwyddau er budd eraill. Y 'nwyddau' diweddaraf sy'n cael eu cymryd o'n tirwedd yw'r potensial o garbon, gan fod cwmnïau buddsoddi o'r tu allan i Gymru yn prynu ffermydd, yn derbyn grantiau mawr Glastir - Creu Coetir (GWC) a defnyddio'r tir i greu coedwigoedd i unioni eu hallyriadau carbon.**

**Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i:**

**• Newid ar fyrder y cymhwyster i dderbyn eu grant Glastir (GWC) fel mai dim ond ffermwyr gweithredol yng Nghymru sy'n gallu gwneud cais.**
**• Cyflwyno deddfwriaeth datblygu cynllunio i alluogi awdurdodau cynllunio lleol fel Gwynedd i reoli prosiectau coedwigo.**

**Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn symud i amddiffyn amgylchedd gwledig Cymru, a'i hadnoddau er budd economi Gwyrdd cylchol newydd gan gryfhau diwydiannau, cymunedau a gwasanaethau Cymru."**

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, a mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig gan aelodau a nododd:-

- Nad yw'n glir pwy yw'r cwmnïau buddsoddi sy'n prynu'r ffermydd.
- Bod rhaid atal yr arfer yma, a sicrhau bod yr adnoddau yn aros yn nwylo pobl Cymru.
- Nad oedd pobl yn deall pa mor ddibynnol yw ffermwyr ar grantiau fel Glastir, ac y dylid deddfu bod ffermydd i'w rhedeg fel fferm gan bobl leol, yn hytrach na'u defnyddio i blannu coed.
- Yr honnid bod defnyddio tiroedd fferm yn y modd yma yn unioni allyriadau carbon. Fodd bynnag, roedd tynnu tir ffermio allan o Gymru yn golygu ein bod yn cynhyrchu llai o fwyd, a chanlyniad anochel hynny oedd gorfod mewnforio bwyd, sy'n ychwanegu at allyriadau carbon.
- Bod ambell ffermwr ym Mhen Llŷn wedi ymgeisio am grant coedwigaeth y Llywodraeth, ond wedi cael eu gwrthod.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Dros y canrifoedd, defnyddiwyd tiroedd ac adnoddau Cymru i echdynnu pob math o nwyddau er budd eraill. Y 'nwyddau' diweddaraf sy'n cael eu cymryd o'n tirwedd yw'r potensial o garbon, gan fod cwmnïau buddsoddi o'r tu allan i Gymru yn prynu ffermydd, yn derbyn grantiau mawr Glastir - Creu Coetir (GWC) a defnyddio'r tir i greu coedwigoedd i unioni eu hallyriadau carbon.**

**Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i:**

- **Newid ar fyrder y cymhwyster i dderbyn eu grant Glastir (GWC) fel mai dim ond ffermwyr gweithredol yng Nghymru sy'n gallu gwneud cais.**
- **Cyflwyno deddfwriaeth datblygu cynllunio i alluogi awdurdodau cynllunio lleol fel Gwynedd i reoli prosiectau coedwigo.**

**Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn symud i amddiffyn amgylchedd gwledig Cymru, a'i hadnoddau er budd economi Gwyrdd cylchol newydd gan gryfhau diwydiannau, cymunedau a gwasanaethau Cymru.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 4.10 y.h.

**CADEIRYDD**